Torri tywarch Campws Dysgu Penfro newydd



Dechreuodd gwaith yn swyddogol ar yr ysgol uwchradd 11-18 gyda lle i 1,463 a chanolfan awtistiaeth newydd ar gyfer 30 o ddysgwyr ar Gampws Dysgu Penfro.

Torrwyd y tywarch yn swyddogol ar y safle gan Jamie Adams, Arweinydd Cyngor Sir Penfro.

Gydag ef oedd Chris Stevens o gontractwr Bouygues UK ac Iwan Davies o ymgynghoriaeth eiddo ac adeiladu Gleeds, ynghyd â chynrychiolwyr yr ysgol gan gynnwys disgyblion.

Meddai'r Cynghorydd Adams: "Mae hwn yn gynllun pwysig ac - fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - y prosiect ysgol mwyaf a wnaed hyd yma gan y Cyngor hwn.

"Bydd yn creu amgylchedd dysgu a luniwyd i wella cyflwyno addysg yn yr 21ain Ganrif a bydd yn rhoi sylw i rai o'r materion llety ar safle Penfro."

Meddai Mr Stevens, rheolwr-gyfarwyddwr rhanbarth Canolbarth, Gorllewin a Chymru Bouygues UK: "Rydym wrth ein boddau bod gwaith wedi dechrau ar greu'r amgylchedd dysgu modern, bywiog hwn fydd yn ysbrydoli cenedlaethau o blant lleol am flynyddoedd i ddod."

Ychwanegodd Mr Davies, Rheolwr Prosiect Gleeds: "Mae'n wych gweld adeiladu'n dechrau ar Gampws Dysgu Penfro.

"Mae hwn yn brosiect unigryw ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r tîm prosiect ehangach i sicrhau y byddwn, yn gydweithredol, yn creu campws dysgu ysbrydoledig ac amlochrog sy'n gweddu orau i anghenion y gymuned leol."

Gwyliwyd y seremoni hefyd gan Brian Pratt, Cadeirydd y Corff Llywodraethol; Frank Ciccotti, pennaeth; Rachel Edwards, athrawes; a Justin Moore, cyfarwyddwr adeiladu.

Hefyd yn bresennol oedd disgyblion Lewys ac Ethan Kettle, Joseph Wiggins, Ben James a Chelsea Smythe.

Bydd yr ysgol yn symud i'r adeilad newydd ym mis Medi, 2018, pan fydd gwaith yn dechrau ar ddymchwel yr hen ysgol a ffurfio'r ardaloedd allanol newydd.

Trefnwyd i gwblhau'r holl waith erbyn mis Mai, 2019.

Mae'r cynllun yn rhan o raglen sylweddol o fuddsoddiad sy'n cael ei gynllunio gan y Cyngor Sir fel rhan o'i Raglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif £149 miliwn.

Aeth y Cyngor drwy broses achos busnes pum pwynt trwyadl er mwyn cael cymeradwyo cyllid cyfatebol 50 y cant gan Lywodraeth Cymru.

Geiriad
Yn y llun mae cyfranogwyr yn y seremoni torri tywarch ar safle Penfro.

ID: 33821 Adolygwyd: 29/7/2016